Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, ddydd Llun, 25 Gorffennaf 2016 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Cynghorydd Geraint Woolford (Maer)
Cynghorwyr Stephen Beach, James Bryan, Elisabeth Culshaw, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Anne Roberts, Heather Williams ac Emrys Wynne.

53. CYFLWYNIAD AR WAITH ADFER CLYCHAU A CHLOC EGLWYS SANT PEDR

Cafwyd cyflwyniad gan Mrs Jennifer Trigger, Cadeirydd Grŵp Adfer Clychau a Chloc Eglwys Sant Pedr ynghylch y gwaith cynnal arfaethedig i glychau a chloc yr eglwys. Esboniodd bod chew chloch newydd wedi eu gosod yn 1843 ar un ffrâm bren a dwy gloch arall ar ffrâm arall yn pwyso ar y ffrâm isaf. Roedd cwmni John Taylor & Co, Bellfounders, Bellhangers a Carillon Builders, wedi cynnal arolwg o ran trwsio ac adnewyddu'r clychau, gyda'r cyfan ar un ffrâm. Er mwyn gwneud hyn byddai'n angenrheidiol symud mecanwaith y cloc, ar gost o £3,299.00 + TAW. Roedd y Grŵp wedi derbyn dyfynbrisiau ar gyfer mecanwaith modur newydd ar gyfer y cloc a morthwylion seinio'r clychau electromagnetig ar gyfer y clychau, gyda phanel rheoli yn y festri. Roedd y dyfynbris gan John Taylor & Co yn £12,916.00 + TAW gyda ffi o £430 + TAW ar gyfer cynnal a chadw blynyddol, ac roedd y dyfynbris gan Smiths of Derby yn £28,255.00 + TAW. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried rhoi cyfraniad gan y Cyngor Tref tuag at gost y gwaith. Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i holi cwestiynau, a chawsant wybod mai'r dyddiad arfaethedig ar gyfer dechrau'r gwaith oedd Mawrth/Ebrill 2017. Diolchodd y Mawr i Mrs Trigger am y cyflwyniad llawn gwybodaeth.
PENDERFYNWYD*: ystyried y mater yn fanwl yng nghyfarfod mis Medi.*

54. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Ian Lewney a Robert Owen-Ellis.

55. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

56. ADRODDIAD Y MAER

Darllenodd y Maer gerdyn diolch oddi wrth Polly Snape ac adroddodd am yr ymweliadau a ganlyn.

28.06 Cyfweliad gyda S4C ynghylch Gŵyl Rhuthun
29.06 Cyngerdd Gŵyl Rhuthun yn Awelon
01.07 Datganiad amser cinio yn Eglwys Sant Pedr
02.07 Top Dre Gŵyl Rhuthun
03.07 Gwasanaeth Sul Dinesig Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yn Rhuddlan
Cyngerdd yn y Capel Presbyteraidd Saesneg
04.07 Cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg
08.07 Datganiad amser cinio yn Eglwys Sant Pedr
Cyngerdd yr Holl Genhedloedd yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen
13.07 Noson Dathlu Cyflawniadau yn Ysgol Brynhyfryd
14.07 Fideo Ymddiriedolaeth Castell Rhuthun
15.07 Datganiad amser cinio yn Eglwys Sant Pedr
16.07 Ymweld ag Ysgol Pen Barras
17.07 Sul Dinesig y Maer
18.07 Cyfarfod â Heddlu Gogledd Cymru
19.07 Agor Trevor House – bloc preswyl newydd yn Ruthin School
22.07 Datganiad amser cinio yn Eglwys Sant Pedr

57. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. James Bryan (Dirprwy Faer)	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, cyfarfod yr is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg, Ffair Haf Ysgol Borthyn, Sul Dinesig y Maer, cyfarfod â Heddlu Gogledd Cymru, agor Trevor House – bloc preswyl newydd yn Ruthin School a Chyfarfod Blynyddol a chyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yng Nghei Connah.
Cyng. Stephen Beach	Cyngerdd Gŵyl Rhuthun yn Awelon, digwyddiad Top Dre, cyfarfod yr is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg, cyfarfod Grŵp Llywio Gwarchod y Gymdogaeth, Te Parti Mawr Gofalwyr a Sul Dinesig y Maer.
Cyng. Elisabeth Culshaw	Trip yr haf Sioe Rhuthun, cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, cyfarfod pwyllgor Sioe Rhuthun, bore coffi Sioe Rhuthun a Sul Dinesig y Maer.
Cyng. June Derry	Sul Dinesig y Maer ac agor Trevor House – bloc preswyl newydd yn Ruthin School.
Cyng. Ken Hawkins	Sul Dinesig y Maer ac agor Trevor House – bloc preswyl newydd yn Ruthin School.
Cyng. Rosie Hughes-Moseley	Sul Dinesig y Maer.
Cyng. Menna Jones	Digwyddiad Top Dre Gŵyl Rhuthun, cyfarfod yr is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg, Banc Bwyd, Sul Dinesig y Maer, gwasanaeth ymadawyr Ysgol Borthyn, agor Trevor House – bloc preswyl newydd yn Ruthin School ac opera awyr agored.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Ymlaen Rhuthun, Te Parti Mawr Gofalwyr, cyfarfod Tîm y Dref a dosbarthu taflenni twristiaeth ar Sgwâr Sant Pedr fel rhan o fenter Tîm y Dref, Castell Rhuthun, Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yng Nghei Connah, Sul Dinesig y Maer, agor Trevor House – bloc preswyl newydd yn Ruthin School a Sgwrs Sirol.
Cyng. Heather Williams	Sul Dinesig y Maer.
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfod yr is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg a Sul Dinesig y Maer.

58. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL DIWETHAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2016 yn gywir.*

59. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

60. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2016.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

61. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2016.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

62. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Ystyriodd yr aelodau'r datganiad ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Hydref 2015 gan Gymdeithas Sioe Rhuthun i gefnogi eu cais am gymorth ariannol.

PENDERFYNWYD*: rhoi £500 o gymorth ariannol tuag at Sioe Rhuthun 2016.*

63. ESTYNIAD ARFAETHEDIG MYNWENT LLANRHYDD

Gwnaeth yr Aelodau ystyried y geiriad drafft y cytundeb gan Gyngor Sir Ddinbych i'w lofnodi

gan Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: cyfeirio'r geiriad drafft at Miss Delyth Geraint Williams o gwmni Cyfreithwyr Llewellyn-Jones, sydd wedi gweithredu ar ran y Cyngor Tref ers dechrau'r trafodaethau, iddi wirio'r cytundeb ac, yn amodol ar ei chymeradwyaeth hi, bwrw ymlaen i lofnodi dogfen ddwyieithog a thalu £10,000 am y tir ychwanegol ar ôl derbyn anfoneb gan Gyngor Sir Ddinbych.*

64. CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Estynnwyd gwahoddiad i'r Cynghorydd Emrys Wynne, a gadeiriodd gyfarfod yr is-bwyllgor Cynllun Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, i arwain yr aelodau trwy'r newidiadau a'r diweddariadau i Gynllun Iaith Gymraeg Cyngor Tref Rhuthun. Esboniodd y diwygiadau, a dywedodd y byddai'n darparu rhagor o wybodaeth yng nghyfarfod mis Medi a fyddai'n sail i'r Adroddiad Blynyddol sy'n ofynnol dan y Cynllun.
PENDERFYNWYD*: mabwysiadu'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig wedi'i ddiweddaru.*

65. PWYLLGOR PWERAU BRYS

Trafododd yr Aelodau ddyddiadau posibl a gofynnodd y Maer am wirfoddolwyr o blith yr Aelodau i ddod i'r cyfarfod.
PENDERFYNWYD*: awdurdodi'r Maer a'r Dirprwy Faer i lofnodi sieciau a chymeradwyo ceisiadau cynllunio nad ydynt yn ddadleuol eu natur yn ystod y gwyliau haf a chynnal cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys ddydd Llun, 15 Awst am 10 o'r gloch y bore yn Swyddfa'r Clerc gyda'r Maer, y Dirprwy Faer a'r Cynghorwyr Elisabeth Culshaw ac Anne Roberts.*

66. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Darparodd y Clerc fanylion am Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2015/16 a chynigiodd y Cynghorydd Ken Hawkins ddarllen y ddogfen.

67. GOHEBIAETH

Derbyniodd yr Aelodau wybodaeth am gyllid grant 'Dathlu eich Cymuned' gan Gronfa Loteri Fawr, adroddiad crynodeb ar yr ymgynghoriad ynghylch Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru), arolwg ar gyfraddau treth uwch wrth brynu ail gartrefi ac ymgynghoriad ar ad-drefnu Llywodraeth Leol a newid ffiniau gan Gymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru.
PENDERFYNWYD*: nodi'r ohebiaeth, ac ymchwilio a fyddai'r gwaith ar glychau a chloc yr eglwys yn gymwys ar gyfer y grant 'Dathlu eich Cymuned' ac i'r aelodau ystyried goblygiadau newid ffiniau a chyfuno posibl cynghorau tref a chymuned gyda'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod arbennig ym mis Medi i drafod ymateb Cyngor Tref Rhuthun, i'w gyflwyno erbyn 30 Medi.*

68. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2016.
PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2016.*

69. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r cyfrifon isod.*

906	Cymdeithas Cymuned Llanfwrog	Cyfraniad tuag at arddangosfa tân gwyllt 2016		£1,000.00
907	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Dau ginio yn y Cyfarfod Blynyddol a'r cyfarfod chwarterol, 15.07.16		£30.00
908	Cwmni Budd Cymunedol Llanfwrog	Torri glaswellt – Gorffennaf		£342.60
S.O.	Canda Copying Ltd	Rhentu a chopïau isafswm	*	£129.14

909	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£36.66
910	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£29.82
911	Sandra Williams	Cost postio Danfoniad Arbennig Gwarantedig	*	£7.25
912	Cyllid y Wlad	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£252.83
913	J & C Brimble	Dyfrio basgedi blodau x 11		£1,573.00
914	J & C Brimble	Dyfrio basgedi'r Llwybr Celf x 3		£99.00

70. CEISIADAU CYNLLUNIO

Bu'r aelodau'n ystyried y ceisiadau cynllunio isod:

02/2016/0690 Tan y Bondo, 5A Stryd Clwyd Uchaf, Rhuthun – gosod ffenestri to steil cadwraeth yn llethrau'r to i'r gorllewin a'r dwyrain.

02/2016/0629 13 Stryd y Castell, Rhuthun – codi rheiliau haearn a giât yn y tu blaen (cais Adeilad Rhestredig).

02/2016/0526 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun (cynlluniau diwygiedig) - dymchwel tŷ deulawr ar wahân a garej cysylltiedig unllawr a chodi neuadd fwyta deulawr.

PENDERFYNWYD*: nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau cynllunio arfaethedig.*

71. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref yw nos Lun, 26 Medi 2016.*